# Clipwyr a Drwgfathwyr

## Achosion o'r Old Bailey

Wedi eu hadau o gofnodion yr Old Bailey

(www.oldbaileyonline.org)

**Achosion 1-3: Clipio**

**Achosion 4-6: Drwgfathu**

# Achos Rhif 1

## Pwy a gyhuddwyd?

Treialwyd tair dynes am Deyrnfradwriaeth. Fe'u cyhuddwyd o glipio 8 hanner coron Charles I a 10 hanner coron y Brenin James, gan gymryd chwe cheiniog oddi ar bob un ohonynt.

## Sut y'u daliwyd?

Bu i berchennog siop sylwi y byddai geneth fach yn dod yn aml i'w siop ar Fleet Street ac yn gofyn am gael cyfnewid pump neu ddeg swllt mewn arian mân am haneri coron. Ni fyddai'n cymryd unrhyw arian ganddo y gallai weld oedd eisoes wedi'u clipio. Roedd y perchennog siop yn amheus iawn felly fe wyliodd yr eneth yn mynd yn ôl at ei mam. Gwyliodd y fam yn anfon yr eneth fach i siopau eraill ar y stryd er mwyn gwneud yr un peth.

Roedd y perchennog siop mor amheus fel y bu iddo ddilyn yr eneth a'i mam i dŷ ar Sho Lane. Pan aethant i mewn i'r tŷ aeth i chwilio am un o swyddogion y cwnstabl.

## Pa dystiolaeth oedd yno?

Bu i'r swyddog chwilio yn y fasged siopa y bu'r fam yn ei defnyddio a chanfod clipiadau arian ynddi a naddion wedi eu lapio mewn papur.

Mewn ystafell dynes arall oedd yn byw yn y tŷ, nad oedd yno ar y pryd, gwelodd y swyddog a'r perchennog siop:

- naddion ar y llawr a chlipiadau o dan y gwely.
- gwelleifiau o dan y cwpwrdd dillad ag arian yn sownd iddynt.
- pot toddi oedd yn dal ychydig yn gynnes.

Gofynnodd y swyddog i'r eneth fach i ble'r oedd yn cario'r haneri coron a gawsai gan y perchennog siop, a dywedodd ei bod yn mynd â nhw i ddynes arall oedd yn byw ar Golden Lane.

## Beth ddigwyddodd nesaf?

Cafodd y tair dynes eu dwyn gerbron y llys.

Plediodd y drydedd ddynes (y dywedodd y ferch fach ei bod yn cario'r arian iddi) yn ddieuog ac oherwydd na chanfuwyd unrhyw dystiolaeth yn ei chartref, fe'i rhyddhawyd.

Dywedodd mam yr eneth fach nad oedd yn gwybod dim am y clipiadau yn ei basged.

Dywedodd yr ail ddynes nad hi oedd yn berchen ar yr offer a ganfuwyd yn ei hystafell a'u bod mewn gwirionedd yn eiddo i ddyn o'r enw Benjamin Smith oedd yn ddiweddar wedi caei ei ddienyddio am fathu.

Penderfynodd y llys bod y ddwy ddynes yma yn dweud celwydd a bod y dystiolaeth a ganfuwyd yn y tŷ yn profi eu bod yn euog.

Dedfrydwyd y ddwy ddynes i farwolaeth drwy losgi.

# Achos Rhif 2

## Pwy a gyhuddwyd?

Cafodd crydd ei ddwyn i'r llys am Deyrnfradwriaeth. Fe'i cyhuddwyd o glipio arian.

## Sut y'i daliwyd?

Roedd y crydd yn rhannu ei gartref â dynes yr oedd nifer o bobl yn amau oedd yn clipio arian. Un diwrnod pan oedd hi allan, aeth y landlord â phobl oedd eisiau prynu'r tŷ i weld y tŷ. Roeddent eisiau gweld y tu mewn i ystafell y ddynes ond roedd y drws wedi'i gloi. Roedd gan y crydd allwedd.

## Pa dystiolaeth oedd yno?

Pan agorwyd y drws aeth y crydd i mewn gyntaf. Gwelodd y landlord y crydd yn cymryd rhywbeth oddi ar y bwrdd ac yn ei guddio o dan glustog. Galwodd y landlord am y cwnstabl.

Bu i'r cwnstabl a'r landlord chwilio yn ystafell y crydd a chanfod ffeil fetel. Yn ystafell y ddynes bu iddynt chwilio o dan y glustog a chanfod:

- clipiadau o arian.
- darn chwe cheiniog oedd wedi'i glipio yn ddiweddar.
- gwelleifiau ar gyfer torri metel.
- tri chrwsibl (potiau toddi) ar gyfer toddi metel ynddynt.
- ychydig o arian wedi'i doddi.

## Beth ddigwyddodd nesaf?

Cafodd y crydd ei ddwyn gerbron y llys.

Dywedodd nad oedd yn gwybod beth oedd y ddynes wedi bod yn ei wneud.

Penderfynodd y llys ei fod yn dweud celwydd oherwydd roedd ganddo allwedd i ystafell y ddynes ac oherwydd ei fod yn gwybod ym mhle'r oedd yr offer a'i fod wedi ceisio eu cuddio.

Dedfrydwyd y crydd i farwolaeth.

# Achos Rhif 3

## Pwy a gyhuddwyd?

Cyhuddwyd Mr George Clark a'i wraig a Mr Richard Pepper a'i wraig o glipio arian.

## Sut y'u daliwyd?

Roedd gwerthwr llysiau yn dechrau teimlo'n amheus oherwydd bod Mrs Clark yn dod yn rheolaidd i'w siop ag arian wedi'u clipio. Roedd yn arfer prynu eitemau rhad ac yn talu â darn mawr o arian wedi'i glipio fel ei bod yn cael llawer o ddarnau nad oeddent wedi'u clipio yn newid. Roedd y gwerthwr llysiau yn meddwl bod hyn yn rhyfedd a galwodd ar swyddogion y cwnstabl. Roedd hefyd yn meddwl bod cymdogion Mr a Mrs Clark, Mr a Mrs Pepper, yn gwneud yr un fath.

## Pa dystiolaeth oedd yno?

Pan fu i'r cwnstabl chwilio cartref Mr a Mrs Clarke bu iddo ganfod nifer o gerrig rhwbio, ffeiliau a photiau toddi. Ym mhwrs Mrs Clarke bu iddynt ganfod ychydig o arian wedi'u clipio ac ychydig o glipiadau. Yng nghartref Mr a Mrs Pepper bu iddo ganfod bag yn llawn o arian ar waelod pot oedd wedi'i lenwi â chig wedi'i biclo. Roedd ynddo werth 11 punt o ddarnau arian ac roedd gwerth 9 punt o'r darnau hynny wedi'u clipio.

## Beth  ddigwyddodd nesaf?

Yn y llys bu i Mr a Mrs Clarke a Mr a Mrs Pepper wadu eu bod wedi clipio unrhyw arian.

Penderfynodd y llys nad oedd digon o dystiolaeth eu bod wedi bod yn clipio arian ac fe'u rhyddhawyd.

# Achos Rhif 4

## Pwy a gyhuddwyd?

Treialwyd John Johnson a John Lawson am Deyrnfradwriaeth. Fe'u cyhuddwyd o gael mowldiau y gellid eu defnyddio i greu sylltau ffug.

## Sut y'u daliwyd?

Fe'u daliwyd gan Thomas Gates, Joseph Gates a William Miller. Bu i Thomas Gates eu gweld gydag arian ffug ac offer drwgfathu.

## Pa dystiolaeth oedd yno?

Y tu mewn i'r ystafell bu i'r tystion ganfod fflasgiau yn cynnwys tywod a ddefnyddiwyd ar gyfer creu mowldiau darnau arian. Bu iddynt hefyd ganfod crwsiblau ar gyfer toddi metel, ychydig o fetel, gefelau ac ychydig o aqua fortis (asid nitrig). Hefyd, canfuwyd arian ffug yr oedd John Johnson wedi eu taflu allan o'r ffenestr.

## Beth ddigwyddodd nesaf?

Yn y treial bu i dyst arbenigol o'r Mint o'r enw John Clarke egluro sut y gallai'r offer a ganfuwyd yn y tŷ fod wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer bathu. Nododd bod gan y cyhuddedig yr holl offer oedd ei angen ar gyfer gallu creu arian ffug. Y metelau a ganfuwyd oedd arian a chopr, sydd yn ffurfio metel cryf ar gyfer creu arian pan maent yn cael eu toddi gyda'i gilydd gydag arsenic (gwenwyn).

Mynnodd John Johnson nad oedd ond yn aros yn y lle am ychydig o ddyddiau.

Nododd John Lawson ei fod yn ei wely pan ddigwyddodd y drosedd honedig.

Collfarnwyd y ddau ddyn a'u dedfrydu i farwolaeth.

# Achos Rhif 5

## Pwy a gyhuddwyd?

Cafodd John Carwick ei dreialu am Deyrnfradwriaeth am fod yn berchen ar fowld o dywod oedd yn cynnwys argraff o swllt.

## Sut cafodd ei ddal?

Fe'i riportiwyd i swyddfa'r cwnstabl gan rywun oedd yn ei amau o ddrwgfathu. Bu i'r swyddogion ymweld â'i gartref a chanfod peth tystiolaeth o ddrwgfathu yn yr ystafell gefn, ond roedd John Carwick a'i ffrind wedi dringo dros y to i'r tŷ drws nesaf. Arestiwyd y dynion pan ddaethant allan.

## Pa dystiolaeth oedd yno?

Mewn ystafell yn  y tŷ bu i'r swyddogion ganfod dwy fflasg oedd yn gynnes, ychydig o dywod, canhwyllau, deiau a nifer o ddarnau arian go iawn. Roedd yno ychydig o sylltau a darn mawr o fetel.

## Beth ddigwyddodd nesaf?

Yn y treial gwadodd John Carwick ei fod wedi bod yn drwgfathu a honnodd ei fod yn ymweld â'r tŷ pan gyrhaeddodd y swyddogion. Dihangodd ar draws y to oherwydd ei fod yn ofni mai'r près oedd y dynion (pobl oedd yn mynd â dynion ymaith i ymuno â'r llynges).

Penderfynodd yr erlyniad nad oedd digon o dystiolaeth er mwyn collfarnu Mr Carwick a chyhoeddwyd ei fod yn ddieuog.

# Achos Rhif 6

## Pwy a gyhuddwyd?

Cyhuddwyd Thomas Condon a John Collins o fod yn berchen ar fowldiau y gellid eu defnyddio i greu haneri coron ffug a sylltau ffug.

## Sut y’u daliwyd?

Roedd dynes wedi riportio Thomas Condon i’r cwnstabl. Bu i swyddogion y cwnstabl ymweld â chartref Thomas Condon ychydig ar ôl 5 o’r gloch gyda’r nos. Roedd y drws wedi cael ei folltio, ond oherwydd eu bod yn credu bod y rhai oedd y tu mewn yn cyflawni trosedd, bu i’r swyddogion dorri’r drws. Daliwyd Thomas Condon â chwistrell a gefelau yn ei law a cheisiodd ddianc. Arestiwyd John Collins yn heddychlon.

## Pa dystiolaeth oedd yno?

Nododd y swyddogion eu bod wedi dal Thomas Condon yn drwgfathu. Canfuwyd mowld yn agos at ei draed ac roedd yno fflasgiau poeth, ychydig o aqua fortis (asid nitrig), papur tywod a chopr. Hefyd, ceisiodd redeg i ffrwd. Roedd Collins yn sefyll yn agos i Condon ac roedd ei ddwylo yn fudr gyda thywod. Roedd yna grwsiblau ger y tân.

## Beth  ddigwyddodd nesaf?

Yn y treial bu i dyst arbenigol o’r Mint o’r enw John Clarke egluro i’r rheithgor sut fyddai’r fflasgiau wedi cael eu defnyddio i greu arian ffug. Dywedodd bod y mowld wedi cael ei ddefnyddio’n barod. Ar ôl i arian gael eu gwneud yn y modd yma, mae eu hymylon yn cael eu crafu a’u sgwrio a’u rhoi mewn aqua fortis (asid nitrig). Roedd popeth sydd ei angen i greu arian ffug yno.

Dywedodd Thomas Condon nad ei gartref ef oedd y tŷ ac er bod yr offer yno i greu arian nid oedd wedi cynhyrchu rhai ei hun. Dywedodd Collins ei fod yn gweithio fel briciwr ac nad ei gartref ef oedd y tŷ hwnnw - roedd wedi byw yn rhywle arall ers tair blynedd ac roedd ganddo dystion i brofi hynny.

Bu i’r llys ganfod Thomas Condon yn euog o fathu ac fe’i dedfrydwyd i farwolaeth. Bu i’r llys ganfod nad oedd tystiolaeth wirioneddol yn erbyn John Collins ac fe'i canfuwyd yn ddieuog.